# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 25.06.12

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd W.Tudor Owen (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr**:** Eddie Dogan, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Llywarch Bowen Jones, Eryl Jones-Williams, Angela Russell, Elfed W. Williams, Gethin G. Williams, Gruffydd Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Siôn Huws (Swyddog Priodoldeb), Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B. Edwards (Cyfreithiwr) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Huw Edwards, Christopher O'Neal, Peter Read, Ann Williams

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd W. Tudor Owen yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2012/13.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Peter Read yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2012/13.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nododd y Cynghorydd John Brynmor Hughes ei fod yn dafarnwr a'r Cynghorydd Llywarch Bowen Jones yn rhedeg clwb. Gan nad oedd materion perthnasol yn ymwneud â cheisiadau dan y Ddeddf Trwyddedu i'w hystyried, nid oedd angen iddynt ddatgan buddiant personol.

**4. MATERION BRYS**

Cyfeiriodd y Swyddog Priodoldeb at y newidiadau yng nghyfansoddiad y Cyngor yn dilyn yr etholiad mis Mai. Nododd bod yna erbyn hyn ddau Bwyllgor Trwyddedu. Mae'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog sy'n bodoli ers 2003 yn ystyried ceisiadau dan Ddeddf Trwyddedu 2003 i werthu alcohol, cynnal adloniant cyhoeddus a materion yn ymwneud â'r Ddeddf Gamblo. Yn gyfreithiol, dim ond y materion hyn gaiff y pwyllgor hwnnw eu trafod. Fe drafodir materion yn ymwneud â tacsis gan y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol ond yr un aelodaeth fyddai'n bodoli ar gyfer y ddau bwyllgor. Gan bod adroddiad yn ymwneud â phenodi modurdai i gynnal profion cerbydau tacsi ar raglen y pwyllgor heddiw, awgrymodd y dylid dod â'r cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog i ben yn dilyn yr eitem ar gofnodion yr is-bwyllgorau trwyddedu ac yna ailymgynnull fel Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol i ystyried yr adroddiad yn ymwneud â tacsis.

## 5. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2012 fel rhai cywir.

## 6. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog:-
a) 14 a 21 Mawrth 2012
b) 23 Ebrill 2012

Mater yn Codi – Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog 14 Mawrth 2012
Cais i adolygu trwydded eiddo – Plas Gwynfryn, Llanbedr

Hysbysodd y Cyfreithiwr mai penderfyniad yr is-bwyllgor ar y cais uchod oedd caniatau'r cais am adolygiad a pheidio â chaniatau cerddoriaeth chwyddedig gael ei chwarae yn y babell fawr a olygai felly ddileu'r elfen cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi ei recordio yn allanol o'r drwydded. Fe apeliodd deilydd y drwydded yn erbyn y penderfyniad a bydd yr apêl gerbron llys yr ynadon diwedd Awst 2012.

**Cadeirio'r Is-bwyllgorau Trwyddedu**

Cyfeiriodd y Swyddog Priodoldeb mai Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ynghyd ag un aelod arall o'r pwyllgor arferai gadeirio'r is-bwyllgorau hyn ar drefn rota, ac awgrymodd, gan bod y profiad o gadeirio'r is-bwyllgorau hyn eisoes gan y Cynghorydd Eryl Jones-Williams y dylid ei gynnwys fel y trydydd aelod i wneud hynny.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth a bod y Cynghorydd Eryl Jones-Williams i'w gynnwys fel y trydydd aelod i gadeirio'r Is-bwyllgorau Trwyddedu.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00a.m. a daeth i ben am 10.25am